

Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg Cyngor Sir Fynwy 2020-2021

Y weledigaeth ar gyfer ein sir yw adeiladu cymunedau cynaliadwy a gwydn. Fel rhan o hyn mae'n hanfodol ein bod yn hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, gan annog pobl i gymryd rhan lawn yn eu cymunedau. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi ymrwmo i sicrhau bod pobl yn gallu rhyngweithio â'r cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu cynnydd y Cyngor ar ei ymrwymadau o ran y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-2021.

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol ar wefan y Cyngor erbyn 30ain Mehefin bob blwyddyn, yn unol â Safon 158.

Gofynion deddfwriaethol

Mae'r safonau sy'n gymwys i Gyngor Sir Fynwy o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i'w gweld ar ein gwefan yma - <https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/sir-fynwy-ar-gymraeg/>

Cyfieithiadau

- Mae ein proses ar gyfer cyfieithu dogfennau, ffurflenni, taflenni, rhyngweithiadau Twitter a Facebook ac ati yn ardderchog, gyda grŵp hirsefydlog o gyfieithwyr allanol a gomisiynwyd i weithio o fewn terfynau amser a bennir drwy flaenoriaethu ein gwaith yn glir.
- Rydym yn parhau i fonitro ein gwefan i sicrhau bod unrhyw dudalennau newydd yn dod ar-lein yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd monitro'r wefan bob amser yn parhau i fod yn flaenoriaeth oherwydd nifer y swyddogion sydd â'r caniatâd priodol i uwchlwytho gwybodaeth a maint y gwaith, ac yn defnyddio archwiliad blynyddol y Comisiynydd i lywio ein sgysiau. Rydym hefyd wedi comisiynu cwmni allanol i gynnal archwiliad annibynnol er mwyn ategu archwiliad y Comisiynydd. Nododd hyn nifer fach o feysydd lle'r oedd angen gwella cyfieithiadau a chytunwyd y byddwn yn comisiynu'r darn hwn o waith yn flynyddol er mwyn sicrhau ein bod yn darparu ein gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i drigolion Sir Fynwy.
- Oherwydd pwysau ar Gyllideb yr Iaith Gymraeg oherwydd nifer fawr y ceisiadau cyfieithu, mae'r cyngor wedi cytuno ar gynnydd o £22,000 y flwyddyn ar gyfer 2021 - 2022 gan godi'r gyllideb gyffredinol i £78,000.

Y Gweithlu

- Rydym yn parhau i fod yn rhagweithiol gyda'n proses recriwtio ac yn defnyddio **Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg** ar gyfer pob swydd wag.
- Cynigir hyfforddiant Iaith Gymraeg i'r holl staff boed fel dysgwyr neu i bobl â sgiliau presennol sydd wedi colli hyder wrth ddefnyddio'r iaith (gweler Safon 170 (2) (b+c) am fwy o fanylion). Mae cynllun peilot o'r cwrs llwybr carlam "Say Something in Welsh" yn cael ei drefnu gyda charfan o 10 i werthuso ei effeithiolrwydd. Mae hyn yn ategu'r cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle lefel Mynediad, Sylfaen a Chanolradd presennol sy'n cael eu hariannu gan y cyngor ac sy'n cael eu mynychu ar-lein gan swyddogion y cyngor yn flynyddol.
- Mae swyddi a hysbysebiri yn cael ei monitro gan Dîm Cyfieithu'r Gymraeg er mwyn gwirio ar gyfer asesiadau sgiliau sydd wedi'u cwblhau, ar y pwynt y caiff eu derbyn yn y blwch e-bost cyfieithu. Rhwyd ddiogelwch ychwanegol yw bod Swyddog yr Iaith Gymraeg, ar ôl derbyn rhestr swyddi gwag yr awdurdod yn wythnosol, yn gwirio lefelau cydymffurfio.
- Dynodir pob swydd wag o leiaf ar lefel Cymraeg dymunol (Nodir gwybodaeth am recriwtio i swyddi gwag (**Safon 154, 170(c) isod**)).
- Mae her sylweddol yn parhau o ran sicrhau nifer ddigonol o staff rheng flaen sy'n siarad Cymraeg er mwyn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae anawsterau o ran recriwtio siaradwyr Cymraeg i rai o'r rolau arbenigol hyn. Mae rheolwyr yn ymwybodol o'r risgiau o gael swyddi'n wag am gyfnodau estynedig drwy beidio â gallu penodi i rolau Cymraeg Hanfodol oherwydd niferoedd isel o ymgeiswyr. Ein nod yw ategu ein grŵp o siaradwyr Cymraeg rhugl drwy gynnal cynllun peilot "Say Something in Welsh" a rhedeg Clwb Clonc i feithrin hyder siaradwyr Canolradd.

Gwasanaethau Cwsmeriaid

Mae ein Llinell Gymraeg, a sefydlwyd ar y 4^{ydd} Gorffennaf 2017, yn parhau i fod ar waith a'r adborth gan ddefnyddwyr yw bod hwnnw'n adnodd gwerthfawr gan ei fod yn caniatáu i bobl ryngweithio â'r cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhwng 1^{af} Ebrill 2020 – 31^{ain} Mawrth 2021 bu cyfanswm o 74 galwad i'r Llinell Gymraeg.

Mae'r canlynol yn rhestr o'r gwasanaeth oedd ei angen neu natur y galwadau ffôn a dderbyniwyd gan y Llinell Ffôn Gymraeg yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Bydd y data hwn yn darparu'r sail ar gyfer trafod yr angen am staff sy'n siarad Cymraeg yn yr adrannau sydd â'r galw mwyaf.

• Gwastraff sbwriel/gardd	28
• Tîm Cyfathrebu	8
• Treth y Cyngor/ardrethi/cyllid	7
• Adnoddau Dynol	5
• Plant a Phobl Ifanc / Addysg	5
• Etholiadau	3
• “Grass Routes”/Cludiant Teithwyr	3
• Gofal Cymdeithasol	3
• Trwyddedu	2
• Cynllunio	2
• Iechyd yr Amgylchedd	2
• Priffyrdd	2
• Swyddog Iaith Gymraeg	2
• Cefn Gwlad	2

Yn ogystal â theleffoni mae gennym Ap cwbl ddwyieithog er mwyn i gwsmeriaid wneud taliadau a gofyn am wasanaethau. Mae gennym hefyd sgysfot sy'n gwbl ddwyieithog.

Llunio Polisi

Dros y blynyddoedd mae'r Cyngor wedi datblygu gweithdrefn asesu'r effaith ar gydraddoldeb i gyd-fynd â phroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Mae'r ddogfen hon yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau Llunio Polisi, deddfwriaeth cydraddoldeb a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n orfodol iddo gyd-fynd ag unrhyw adroddiad sy'n mynd i'r cabinet neu'r Cyngor i'w benderfynu, gyda'r bwriad o gefnogi penderfyniadau effeithiol a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol. Caiff yr holl asesiadau effaith eu monitro'n rheolaidd gan grŵp o 4 swyddog i sicrhau bod pob asesiad yn gadarn ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Mae'r cwestiynau ar yr effaith ar y Gymraeg yn cynnwys; cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a'r effaith negyddol neu gadarnhaol gynyddol y gallai'r penderfyniad ei chael ar yr iaith, tra'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Data sy'n ofynnol bob blwyddyn o 1 Ebrill – 31 Mawrth

Mae'r adroddiad yn cyflwyno data ar y dangosyddion gofynnol yn y meysydd canlynol, yn unol â Safonau 158, 164 a 170:

- Gwybodaeth am gwynion (*Safon 158(2); 164(2); 170(2)(d)*)
- Gwybodaeth am sgiliau iaith staff (*Safon 170(2)(a)*)
- Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i staff (*Safon 170 (2) (b+c)*)
- Recriwtio i swyddi gwag (*Safonau 154, 170(ch)*).

Cwynion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg

Yn 2020-2021 ni chawsom unrhyw gwynion ffurfiol gan aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg. Cafodd yr holl gwynion neu sylwadau anffurfiol a dderbyniwyd eu datrys gan Swyddog y Gymraeg, a daeth pob un i gasgliad boddhaol.

Sgiliau Cymraeg y Staff

Sgiliau iaith Gymraeg cyflogeion fel ar 31/03/21 (heb gynnwys staff mewn ysgolion)

Cymhwysedd Staff	Mynediad	Sylfaen	Canolradd	Uwchradd	Rhugl	Cyfanswm
Sgiliau iaith Gymraeg	173	32	18	6	35	264

Sgiliau llafar Cymraeg fesul gwasanaeth fel ar 31 Mawrth 2021 (ac eithrio staff mewn ysgolion)

	Mynediad	Sylfaen	Canolradd	Uwchradd	Rhugl	Cyfanswm
Plant a Phobl Ifanc	7	1	2	0	1	8
Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	54	9	6	0	17	81
Menter	82	16	10	2	8	117
Adnoddau	11	2	0	2	1	17
Adran y Prif Weithredwr	19	4	0	2	8	33
Cyfanswm	173	32	18	6	35	264

Recriwtio

Mae'r prosesau gwneud cais am swyddi yn gwbl hygyrch yn Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg ac mae pob swydd wag yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog waeth beth fo'r asesiad Cymreig a wneir, ac felly'n mynd tu hwnt i'r gofyniad sy'n deillio o'r Safonau a osodwyd arnom.

Isod ceir manylion y swyddi a hysbysebwyd ar gyfer ysgolion yn 2020 - 2021..

	2019-20	2020-21
swyddi gwag/newydd yn cael eu hysbysebu	362	166
swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd a oedd â 'sgiliau Cymraeg yn hanfodol';	1	1
swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd a oedd â 'sgiliau Cymraeg yn ddymunol';	351 (97.0%)	165 (99.4%)
swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd a nodwyd fel swyddi lle mae'n 'angenrheidiol dysgu sgiliau iaith Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd';	0	0
swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd rhwng 1af Ebrill 2020 - 31ain Mawrth 2021 'nad oedd yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg'	10 (2.8%)	0 (0%)

Nifer y swyddi nad oedd yn cynnwys asesiad		0
Y nifer a oedd heb ddatgan		0

Dyma fanylion y swyddi a hysbysebwyd ar gyfer ysgolion yn 2020 - 2021.

	2020-21
Swyddi gwag/newydd ysgolion a gafodd eu hysbysebu	35
Swyddi gwag/newydd ysgolion a hysbysebwyd â 'sgiliau Cymraeg yn hanfodol';	7
Swyddi gwag/newydd ysgolion a hysbysebwyd â 'sgiliau Cymraeg yn ddymunol neu'n ddymunol ond nid hanfodol'	28
Swyddi gwag/newydd ysgolion a hysbysebwyd lle mae'n 'angenrheidiol dysgu sgiliau iaith Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd'	0
Swyddi gwag/newydd ysgolion a hysbysebwyd nad oedd 'yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg'	0
Nifer nad oeddent yn cynnwys asesiad	0
Y nifer a oedd heb ddatgan	0

Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i staff

Yn 2020 - 2021, mae staff wedi bod yn mynychu sesiynau iaith Gymraeg gyda phob un yn cael cymorth ariannol. Mae hyn yn cynnwys ffioedd, llyfrau a'r amser i fynychu ac astudio:-

- Cofrestrodd **12** aelod staff ar gyfer cwrs mynediad Cymraeg yn y Gweithle blwyddyn 1, 2 awr yr wythnos am 30 wythnos, a ddarperir gan Gymraeg i Oedolion Coleg Gwent.
- Cofrestrodd **2** aelod staff ar gyfer Sylfaen 1
- Cofrestrodd **7** aelod staff ar gyfer Sylfaen 2

- Cofrestrodd **3** aelod staff ar gyfer Canolradd 1
- Cofrestrodd **1** aelod staff ar gyfer y cwrs Uwch rhan 2 (ar ôl gwaith).
- Caiff staff eu hariannu i fynychu Cyrsiau Penwythnos Cymraeg Coleg Gwent os byddant yn dewis hynny, yn ychwanegol at y cyrsiau wythnosol arferol.

Bydd mwy o gyfleoedd yn cael eu cynnig a'u hariannu'n llawn o fis Medi 2021 neu os bydd cyfleoedd yn codi cyn hynny. Fel y soniwyd eisoes, byddwn yn sefydlu cynllun peilot llwybr carlam "Say Something in Welsh" gyda charfan o 10 yn cael ei hariannu'n llawn. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun eleni wedi bod yn llai nag yn y 9 mlynedd flaenorol, oherwydd y Pandemig yn bennaf a'r angen i staff newid rolau i roi cymorth ychwanegol i'r cyhoedd.

Hyfforddiant Galwedigaethol a Chymunedol

Mae rhaglen gan y cyngor ar gyfer darparu hyfforddiant galwedigaethol (allanol a mewnol) yn ogystal â hyfforddiant i aelodau o'r cyhoedd drwy'r Gwasanaeth Addysg Cymunedol. Mae'r holl staff sydd yn siarad Cymraeg wedi cael gwybod bod yr hawl ganddynt i dderbyn yr hyfforddiant hwn drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae hyn yn wir hefyd am aelodau o'r cyhoedd sydd yn cael gwybod am y dewis iaith wrth iddynt gofrestru i gadw lle ond nid ydym wedi derbyn unrhyw geisiadau hyd yma.